

**Canolfan Ynni Wrecsam
Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol**

**Adroddiad i hysbysu'r Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol a
gynhyrchwyd yn unol ag Adran 47(6) Deddf Cynllunio 2008**

Gorffennaf 2014

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Pŵer Wreccsam Cyfyngedig**
- 3. Datblygu dyluniad manwl**
- 4. Cydrannau Canolfan Ynni Wreccsam**
- 5. Cyfadeilad Canolfan Ynni Wreccsam**
- 6. Cysylltiad nwy integrol Canolfan Ynni Wreccsam**
- 7. Cysylltiad trydanol**
- 8. Asesu effeithiau Canolfan Ynni Wreccsam**
- 9. Yr Arolygiaeth Gynllunio**
- 10. Pwysigrwydd ymgynghori cyn y cais**
- 11. Ymgynghori anstatudol hyd yn hyn**
- 12. Mirieinio'r dulliau ymgynghori**
- 13. Cwmpasu Amgylcheddol**
- 14. Ymgynghori statudol dan Adran 47 Deddf Cynllunio 2008**
- 15. Amserlen Debygol**
- 16. Ein hardal ymgynghori**
- 17. Adborth**
- 18. Yr iaith Gymraeg**
- 19. Ymgynghoriadau perthnasol eraill**
- 20. Gwybodaeth bellach**

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Pŵer Wreccsam Cyfyngedig (WPL) yn cynnig adeiladu, gweithredu a chynnal gorsaf bŵer tyrbin nwy cylch cyfun newydd (CCGT) gyda chapasiti trydanol o hyd at 299 megawat (MWe) yn Ystad Ddiwydiannol Wreccsam. Bydd y prosiect yn cynnwys cysylltiad nwy integrol.
- 1.2. Yn hysbys fel Canolfan Ynni Wreccsam (WEC), dynodir y prosiect fel Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP). Mae NSIPs yn brosiectau mawr sy'n cefnogi'r economi cenedlaethol a gwasanaethau hanfodol, a maent yn cwrdd â meini prawf unigol penodol a gyflwynir yn Neddf Cynllunio 2008.
- 1.3. Yn yr achos hwn, mae Adran 15 Deddf Cynllunio 2008 yn datgan bod unrhyw orsaf gynhyrchu ar y tir gyda chapasiti dros 50 megawat (MW) yn cael ei ystyried fel NSIP.
- 1.4. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod cynigwyr prosiectau NSIP yn gwneud cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer y datblygiad, ac mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod cyfrifoldeb i archwilio ceisiadau DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS). Felly bydd WPL yn cyflwyno cais DCO i PINS. Cymerir y penderfyniad i roi DCO neu beidio gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 1.5. Mae ymgynghori â'r gymuned sy'n byw yn ardaloedd prosiectau NSIP arfaethedig yn ffurfio elfen integrol o'r broses o roi caniatâd DCO.
- 1.6. Cyflwynir y ddogfen hon mewn dwy ran. Mae Rhan 1 yn egluro cynigion WPL ar gyfer yr WEC a'r cyd-destun y mae'r cwmni'n ymgynghori'n statudol â'r gymuned ynddo ynghylch ei ddyluniad arfaethedig. Mae Rhan 2 yn cyflwyno hysbysiad Datganiad o Ymgynghori Cymunedol WPL, sy'n egluro sut y bydd yn ymgynghori'n statudol â'r gymuned ar ei gynigion.

2. Pŵer Wreccsam Cyfyngedig

- 2.1. Mae WPL yn fenter ar y cyd rhwng Glenfinnan, gwmni buddsoddi mewn eiddo a datblygu gyda phrofiad eang yn y sector ynni, a St. Modwen, arbenigwyr adfywio arweiniol y DU. Fel WPL, mae'r cwmnïau'n cyfuno gwybodaeth eang Glenfinnan o farchnad ynni'r DU ac arbenigedd adfywio St. Modwen. Ar hyn o bryd mae'r partneriaeth yn cynyddu nifer o brosiectau cynhyrchu pŵer ledled y DU.

3. Datblygu dyluniad manwl

- 3.1. Mae WPL wedi datblygu dyluniadau manwl ar gyfer yr WEC. Mae'r dyluniadau hyn wedi'u hysbysu gan astudiaethau ac asesiadau technegol ac amgylcheddol cynhwysfawr, yn ogystal â gan adborth a dderbyniwyd mewn ymateb i gyfnod anstatudol cychwynnol yr ymgwymerwyd ag ef gyda rhanddeiliaid lleol rhwng 11 Mehefin 2012 a 5 Awst 2012 ar gynigion ar gyfer gorsaf bŵer CCGT gyda chapasiti cynhyrchu enwol o hyd at 1,200 MWe.
- 3.2. Ers yr ymgynghori anstatudol, mae capasiti cynhyrchu'r WEC wedi'i leihau er mwyn cael gwared ar yr angen am gysylltiad trydanol llinell dros ben 400kV newydd. Nawr mae WPL yn cynnig gorsaf bŵer CCGT a fydd â chapasiti o hyd at 299MWe
- 3.3. Byddai gorsaf bŵer CCGT gyda chapasiti cynhyrchu enwol o hyd at 299MWe yn:
 - Creu hyd at 800 o swyddi adeiladu a hyd at 30 o swyddi llawn-amser
 - Gwella cadernid ac ansawdd y cyflenwad trydanol i Ystad Ddiwydiannol Wreccsam
 - Darparu'r potensial i Ystad Ddiwydiannol Wreccsam elwa o wres dros ben a gynhyrchir gan yr WEC.

4. Cydrannau Canolfan Ynni Wreccsam

- 4.1 Bydd gan yr WEC arfaethedig ddwy brif ran a gaiff eu cynnwys yn y DCO:
 - Cyfateilad yr orsaf bŵer, gan gynnwys yr orsaf bŵer CCGT a chyfleuster ar gyfer cyflenwad cyfun o wres a phŵer i Ystad Ddiwydiannol Wreccsam; a'r
 - Cysylltiad nwy integrol.
- 4.2 Disgrifir yr elfen gysylltiad trydanol parthed â'r WEC isod yn Adran 7. Ni fydd yr elfen hon yn ffurfio rhan o'r cyflwyniad DCO.

5. Cyfateilad gorsaf bŵer Canolfan Ynni Wreccsam

- 5.1. Cyfateilad gorsaf bŵer yr WEC yw'r enw a roddir i'r adeiladau sydd gyda'i gilydd yn gwneud yr orsaf bŵer CCGT; nid yw'n cynnwys cysylltiad nwy integrol yr WEC. Mae cyfateilad yr orsaf bŵer yn cynnwys:
 - Neuaddau tyrbîn i gynnwys tyrbînau nwy sy'n troelli'r generaduron i gynhyrchu pŵer
 - Generaduron ager i adfer gwres sy'n defnyddio ager i gynhyrchu pŵer ychwanegol
 - Cyrn sy'n gwasgaru allyriadau gan gynnwys tARTH dŵr a CO₂

- Cyddwysydd a oerir gan awyr i ddychwelyd ager a gynhyrchir gan y safle i ddŵr
 - Is-orsaf a thrawsffurfwyr trydanol a ddefnyddir ar gyfer trosi pŵer a dosbarthu/ trosglwyddo
 - Safleoedd dŵr wedi'i ddifwneiddio a thanciau storio i drin dŵr i'w ddefnyddio
 - Adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gweinyddu, cynhaliaeth a phwrpasau cyffredinol
- 5.2. Lleolir cyfadeilad yr orsaf bŵer yn Ystad Ddiwydiannol Wrecsam ac mae ar dir a neilltuwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth mawr, sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer warws bae uchel a swyddfa o 47,534 o fetrau sgwâr (500,000 o droedfeddi sgwâr). O'r blaen roedd y safle'n lleoliad ffatri Owen Cornings gynt.

6. Cysylltiad nwy integrol Canolfan Ynni Wrecsam

- 6.1. Er mwyn cyflenwi'r tanwydd mae'r WEC ei angen i gynhyrchu trydan, mae cysylltiad â'r rhwydwaith cenedlaethol i drosglwyddo nwy yn ofynnol.
- 6.2. Mae'r pwynt cysylltu agosaf ar biblinell yn agos i Waith Nwy Maelor, i'r de o Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.
- 6.3. Y cysylltiad nwy integrol fydd piblinell wedi'i chladdu yn mesuro oddeutu 3km o ran hyd. Bydd y biblinell hon yn teithio i'r dwyrain, i'r de ac i'r de-orllewin o gyfadeilad gorsaf bŵer yr WEC i'w gysylltiad yn agos i Waith Nwy Maelor.
- 6.4. Adeiladir Gweithfa Uwchben Tir (AGI) ar gyfer rheoli cyflenwad a phwysau nwy o'r system drosglwyddo genedlaethol i'r WEC ger y pwynt cysylltu nwy, ar safle presennol Gwaith Nwy Maelor.
- 6.5. Mae piblinell gysylltu nwy yr WEC a'r AGI yn elfen integrol o'r orsaf bŵer CCGT arfaethedig a chaiff ei chynnwys yn y cyflwyniad DCO.

7. Cysylltiad trydanol

- 7.1. Hefyd bydd angen i'r WEC gael ei gysylltu i'r rhwydwaith lleol ar gyfer dosbarthu trydan, fodd bynnag, nid yw hyn yn ffurfio rhan o gyflwyniad DCO'r WEC.
- 7.2. Mae'n bosibl cysylltu'r WEC i rwydwaith dosbarthu trydan 132kV lleol Rhwydweithiau Ynni SP drwy uwchraddio'r rhwydwaith presennol gan gynnwys amnewid llinellau dros ben presennol ac adeiladu ceblau newydd o dan y ddaear mewn lleoliadau penodol. Byddai'r gwaith hwn

yn cael ei wneud naill ai o dan hawliau datblygu a ganiateir, drwy ganiatâd cynllunio o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref neu drwy gais neu esemptiad o dan a37 y Ddeddf Trydan 1989.

- 7.3. Bydd WPL yn asesu effeithiau amgylcheddol tebygol y cysylltiad trydanol o fewn yr asesiad cronol ar gyfer yr WEC a chyflwynir hyn yn y Datganiad Amgylcheddol (ES). Darperir gwybodaeth ar sut y gellir gwneud cysylltiad trydanol yr WEC yn ystod ymgynghori statudol.

8. Asesu effeithiau Canolfan Ynni Wreccsam

- 8.1. Mae Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) 2009, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygiad) 2012, yn dosbarthu cynigion WPL ar gyfer WEC fel datblygiad sydd angen asesiad effaith amgylcheddol.
- 8.2. Er mwyn caniatáu am ymgynghoriad llawn ac ystyrion bydd WPL yn cynhyrchu Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR). Bydd y PEIR yn amlinellu effeithiau amgylcheddol disgwylidig arwyddocaol y cynigion a mesurau lliniaru posibl. Trefnir bod y PEIR ar gael ar ddechrau'r ymgynghoriad statudol mewn lleoliadau i arddangos dogfennau a restrir yn y ddogfen hon (Adran 15), gwefan y prosiect (www.Wrexham-Power.com) ac mewn digwyddiadau arddangos i'r cyhoedd.

9. Yr Arolygiaeth Gynllunio

- 9.1. Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) yw'r asiantaeth a ddirprwyir gan y llywodraeth sy'n gyfrifol am reoli'r broses archwilio ar gyfer NSIPs. Rhoddwyd y pŵer hwn iddi ar 1 Ebrill 2012, o dan ddarpariaethau a wnaed yn Neddf Lleoliaeth 2011.
- 9.2. Bydd PINS yn derbyn cais DCO WPL, bydd yn ymgymryd ag archwiliad cyhoeddus trwyadl o'i gynnwys ac yna bydd yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd a fydd yn penderfynu'r cais yn y pen draw.
- 9.3. Mae'r broses benderfynu'n cynnwys chwe cham gwahanol:
- Cyn y cais
 - Derbyn
 - Cyn archwilio
 - Archwilio
 - Penderfynu

- Ôl-benderfynu
- 9.4. Mae PINS yn darparu gwybodaeth ynghylch pob cam ar ei wefan - infrastructure.planningportal.gov.uk/application-process. Darperir crynodeb o bob cam isod.
 - 9.5. Yn ystod y *cam cyn y cais*, mae datblygwyr yn ymgymryd ag ymgynghoriad statudol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned leol, ac ar ôl hynny maent yn terfynu eu cynlluniau ac yn cyflwyno cais DCO i PINS. Mae WPL ar y cam hwn ar hyn o bryd.
 - 9.6. Yn ystod y *cam derbyn*, bydd PINS yn arolygu cais DCO WPL er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u cyflenwi a bod digon o ymgynghori wedi'i wneud yn unol ag Adrannau 42, 43, 44, 46, 47, 48 a 49 Deddf Cynllunio 2008. Yna bydd yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid derbyn y cais i'w archwilio'n fanwl.
 - 9.7. Yn ystod y *cam cyn archwilio*, gwahoddir yr holl bobl a allai fod â buddiant yn y cynigion i gofrestru i gymryd rhan yn y cam archwilio. Yn ystod yr amser hwn, bydd y PINS yn gosod dyddiad ar gyfer Cyfarfod Rhagarweiniol, yn nodi dechrau'r cam archwilio, lle caiff amserlen ar gyfer archwilio'r cais DCO ei chytuno.
 - 9.8. Yn ystod y *cam archwilio*, bydd PINS yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig pellach gan unrhyw un sydd wedi cofrestru buddiant yn y prosiect. Hefyd bydd yn cynnal un neu fwy o wrandawiadau cyhoeddus lle gall partïon cofrestredig â buddiant wneud sylwadau pellach yn bersonol. Bydd y rhain yn hysbysu'r argymhelliad terfynol a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd.
 - 9.9. Yn ystod y *cam penderfynu*, bydd gan PINS dri mis i wneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd. Yna bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis arall i wneud penderfyniad terfynol ar gynigion WPL.
 - 9.10. Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, bydd cyfle i herio penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol am hyd at chwech wythnos.
 - 9.11. Gall gymryd hyd at 16 mis o dderbyn y cais tan fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud ei b(ph)enderfyniad.
 - 9.12. Mae PINS yn gwneud ei argymhellion yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs). Mae NPSs yn cyflwyno ac yn egluro Polisi'r Llywodraeth ar eu pynciau priodol a hefyd maent yn cyflwyno'r meini prawf y caiff NSIPs eu hasesu yn eu hôl. Y tro hwn, yr NPSs ynni perthasol yw:

- EN-1 Datganiad Polisi Cenedlaethol Troswaol ar gyfer Ynni
- EN-2 NPS Seilwaith Cynhyrchu Trydan Tanwydd Ffosil
- EN-4 NPS Seilwaith Cyflenwad Nwy a Phiblinellau Nwy ac Olew

9.13. Hefyd cymerir y Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol gan Lywodraeth Cymru (TANS) i gyfrif. Mae hyn yn cynnwys:

- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
- Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997)
- Nodyn Cyngor Technegol 12: Dynunio (2009)
- Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004)
- Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)
- Nodyn Cyngor Technegol 22: Adeiladau Cynaliadwy (2010).

9.14. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch PINS, ewch i Infrastructure.PlanningPortal.gov.uk.

10. Pwysigrwydd yr ymgynghori cyn y cais

10.1. Mae ymgynghori ystyrlon gyda'r gymuned - y rhai hynny sy'n byw neu'n gweithio yn ardal y cynigion - cyn y cais yn cyflwyno buddion. Gall hyrwyddwyr prosiectau NSIP elwa o wybodaeth fanwl y gymuned o'r ardal leol a chyfrif am hyn wrth ddatblygu eu cynigion. Yn bwysig, mae'n caniatáu i'r gymuned graffu ar y cynigion cyn iddynt gael eu cyflwyno, gan gynorthwyo'r broses o gynhyrchu cynigion sydd, lle mae'n briodol, yn cydymdeimlo â'u hawgrymiadau. Mae angen i ddatblygwyr arddangos sut mae'r holl awgrymiadau a wnaed wedi'u hystyried a sut mae'r cynigion wedi datblygu o ganlyniad.

11. Ymgynghori anstatudol hyd yn hyn

11.1. Cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol, cynhaliodd WPL ymgynghoriad anstatudol gwirfoddol cychwynnol ar y cynigion am orsaf bŵer Tyrbin Nwy Cylch Cyfun a allai gynhyrchu hyd at 1,200 MWe. Roedd cyfnod yr ymgynghoriad anstatudol rhwng 11 Mehefin 2012 a 5 Awst 2012.

11.2. Os yw ceisiadau'n fwy neu'n fwy cymhleth, anogir ymgeiswyr i fynd y tu hwnt i ofynion statudol Deddf Cynllunio 2008. Felly, ymrwymodd WPL i gyfnod cychwynnol o ymgynghori'n wirfoddol.

11.3. Roedd y cyfnod cychwynnol hwn o ymgynghoriad anstatudol gwirfoddol yn cyflwyno'r cynigion ac yn gofyn am adborth cychwynnol ar elfennau eang y prosiect, sef:

- Dewis safle WPL ar gyfer yr orsaf bŵer (De Parc Kingmoor) yn

ogystal â dau safle a gafodd eu hystyried ond a ystyrir yn llai addas (Gogledd Parc Kingmoor a'r cyn safle Ffatri Firestone)

- Gellid cael dau goridor cychwynnol ar gyfer llinell gwifrau trydan 400kV uwchben yn cysylltu â'r system genedlaethol trosglwyddo trydan trwy is-orsaf Legacy y Grid Cenedlaethol; a
- Dau goridor posibl ar gyfer cysylltu â'r system drosglwyddo nwy cenedlaethol ger Gwaith Nwy Maelor.

11.4. Gydol y cyfnod hwn o'r ymgynghoriad daeth yn amlwg, o ran y dewis safle, De Parc Kingmoor, y byddai'n well gan yr ymatebwyr pe byddai elfennau talach yr orsaf bŵer yn cael eu gosod mor bell â phosibl tuag at Bryn Lane. Awgrymodd rhai y dylid ystyried safleoedd eraill ar Ystâd Diwydiannol Wreccsam, gan gynnwys hen safle Ffatri Firestone, lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 'arch garchar' sydd i'w gwblhau yn 2017.

11.5. Gwelwyd y byddai'n well gan ymatebwyr y coridor deheuol ar gyfer y cysylltiad trydanol. Fodd bynnag, ar ôl dyddiad cau'r cyfnod ymgynghori, ac ar ôl cyhoeddi Adroddiad Adborth Cam Un (Rhagfyr 2012), mae nifer o drigolion lleol wedi cyflwyno adborth naill ai'n ffafrio'r coridor gogleddol ar gyfer y cysylltiad trydan neu'n gwrthwynebu mewn egwyddor y coridor deheuol ar gyfer y cysylltiad trydanol.

11.6. Ar ôl yr ymgynghoriad gwirfoddol anstatudol hwn, daeth yn amlwg mai'r hyn oedd yn peri'r pryder pennaf i drigolion yr ardal ynghylch y prosiect oedd yr elfen cysylltiad trydan. O gofio hyn, mae WPL wedi ystyried ac asesu dewisiadau eraill ar gyfer Canolfan Ynni Wreccsam ac yn cynnig, erbyn hyn, orsaf bŵer tyrbîn nwy cylch cyfun ac wedi dangos sut y gellid ei chysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trydan presennol.

11.7. At ei gilydd, doedd yna ddim barn gref ynghylch llwybr y cysylltiad nwy.

11.8. Mae Adroddiad Adborth Cam Un WPL yn crynhoi'r hyn a wnaed yn ystod yr ymgynghori anstatudol, y gweithgareddau a gyflawnwyd, yr adborth a gafwyd ac ymateb cyntaf WPL yr adeg hynny. Gellir llawr lwytho'r adroddiad o'n llyfrgell ddogfennau ar www.Wrexham-Power.com.

12. Mirieinio'r dulliau ymgynghori

12.1. Ar ôl trafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, cytunodd WPL i gyhoeddi Cynllun Ymgynghori cychwynnol ar gyfer rhannau cyntaf yr ymgynghori gwirfoddol anstatudol. Mae'r Cynllun Ymgynghori, y gellir llawr lwytho o www.Wrexham-Power.com, wedi'i ddefnyddio i baratoi a bu'n sail i'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol hwn.

- 12.2. Drwy gynnal yr ymgynghoriad gwirfoddol, cychwynnol, anstatudol, daeth WPL i ddeall yn well pa ddulliau ymgynghori sy'n gweithio orau yn yr ardal a pha rai y dylid eu mireinio neu ychwanegu atyn nhw. Bydd yr ymgynghori statudol yn gynhwysfawr ac yn ddilysadwy a bydd yn sylfaen Adroddiad Ymgynghori yn ôl gofynion Deddf Cynllunio 2008.
- 12.3. Yn ogystal â chyhoeddi ei Ddatganiad o Ymgynghori Cymunedol mewn papur newydd lleol, yn ôl gofyn Adran 47 (6) Deddf Cynllunio 2008, bydd WPL yn cyfathrebu'n uniongyrchol a'r cyfeiriadau trigianol a masnachol a nodwyd sydd y tu fewn i'r Parth Ymgynghori.
- 12.4. Yn ystod yr ymgynghori statudol, bydd WPL yn cynnal arddangosfeydd cyhoeddus lle bydd y gymuned leol yn gallu gweld a chyflwyno sylwadau ar y cynigion a chyfarfod tîm WPL. Bydd y manau ar gyfer cynnal yr arddangosfeydd yn cael eu dewis i adlewyrchu'r ardaloedd lle bwriedir gosod seilwaith y prosiect. Cedwir mewn cof hefyd pa mor gyfleus a hygyrch yw pob man lle cynhelir arddangosfa a hefyd eu hamseriad.
- 12.5. Erbyn hyn, mae WPL wedi paratoi cynlluniau cyntaf yn dangos gosodiad a dyrchafiad adeiladau'r orsaf bŵer. Defnyddir teclynnau delweddu i ddangos sut y gallai Canolfan Ynni Wreccsam edrych. Bydd y rhain ar gael yn yr arddangosfeydd cyhoeddus.

13. Cwmpasu Amgylcheddol

- 13.1. Mae WPL wedi cyflwyno Adroddiad Cwmpasu Aseiad Effeithiau Amgylcheddol i'r Arolygaeth Gynllunio fis Tachwedd 2012. Bydd gwaith cwmpasu'n cael ei wneud yn gynnar yn y broses o baratoi aseiad effeithiau amgylcheddol er mwyn sicrhau y bydd astudiaethau amgylcheddol yn ystyried pob ffactor perthnasol ac yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i asesu'r effeithiau arwyddocaol a allai godi o'r datblygiad arfaethedig.
- 13.2. Ar ôl mirenio'r bwriad i gael gorsaf bŵer tyrbin nwy cylch cyfun a allai gynhyrchu hyd at 299 megawatts (MWe), cyflwynwyd adroddiad cwmpasu diwygeidg i'r Arolygaeth Gynllunio fis Mawrth 2014 er mwyn sicrhau bod cwmpas yr aseiad amgylcheddol yn dal yn briodol ac yn gadarn. Cyhoeddwyd Barn Gwmpasu'r Arolygaeth Cynllunio fis Mai 2014.
- 13.3. Gellir gweld Adroddiad Cwmpasu WPL a Barn Gwmpasu'r Arolygaeth Gynllunio ar www.Wrexham-Power.com.

14. Ymgynghori Statudol o dan Adran 47 Deddf Cynllunio 2008

- 14.1. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn ceisio sicrhau yr ymgynghorir yn llawn ac yn effeithiol gyda chymunedau a allai gael eu heffeithio gan ddatblygiadau prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ac i sicrhau y telir cymaint o sylw ag sy'n ymarferol i'w barn. Mae Adran 47 y Ddeddf yn dangos y gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymgynghori gyda'r cyhoedd.
- 14.2. Er mwyn hyrwyddo cysylltiadau cymunedol, mae gofyn paratoi Datganiad Ymgynghori Cymunedol sy'n dangos yr hyn sydd i'w wneud wrth ymgynghori â'r gymuned ynghylch y cynigion.
- 14.3. Cafodd y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ei baratoi ar ôl ymgynghori â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sydd â phrofiad o gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ac sydd wedi cynghori ar y dulliau mwyaf addas y dylid eu defnyddio er mwyn sicrhau y cyrhaeddir cymaint o randdeiliaid cymunedol â phosibl yn yr ardal.
- 14.4. Cyn cyflwyno'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol drafft i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'w adolygu'n statudol, cyflwynwyd drafft cynnar o'r ddogfen i'r Cyngor ar 1 Ebrill 2014 i gael y sylwadau cyntaf. Diben yr adolygiad cynnar oedd rhoi cyfle i'r Cyngor gyfarwyddo â'r ddogfen.
- 14.5. Ymgynghorwyd yn statudol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch Datganiad Ymgynghori Cymunedol drafft WPL rhwng 8 Ebrill a 6 Mai 2014 a chafwyd ymateb ar 6 Mai 2014. Mae'r newidiadau i'r Datganiad yn cynnwys cadarnhau y cynhelir arddangosfa ym mhentref Isycoed ac ychwanegu cynghorau plwyf yn Swydd Gaer fel ymgynghoreion Adran 47.
- 14.6. Bydd rhestr gyflawn o sylwadau ac o ymatebion WPL ar gael yn Adroddiad Ymgynghori WPL yn ôl gofyn Deddf Cynllunio 2008.

15. Amserlen Debygol

- 15.1. Mae manylion yr amserlen ddangosol isod, ond gallai newid. Bydd unrhyw newid iddi'n cael cyhoeddu'rwydd ar wefan y prosiect ar www.Wrexham-Power.com
- 14 Gorffennaf 2014 tan 24 Awst 2014 – ymgynghoriad Statudol (28 diwrnod)
 - Gaeaf 2014 – cyflwyno cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygaeth Gynllunio
 - Gwanwyn 2015 tan y gaeaf 2015 / 16 – yr Arolygaeth

- Gynllunio'n ystyried y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu.
- Gwanwyn i haf 2016 – argymhelliad gan yr Arolygaeth Gynllunio i'r Ysgrifennydd Gwladol a phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

15.2. Bydd WPL yn egluro'r amserlen hon a'r broses o ganiatáu Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn glir ym mhob deunydd ymgynghori perthnasol ac yn y digwyddiadau cyhoeddus.

16. Ein hardal ymgynghori

16.1. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn dangos fod yn rhaid i ymgeiswyr ymgynghori gyda 'phobl sy'n byw ger y tir'. Mae cynigion WPL yn debyg o ennyn cryn dipyn o ddiddordeb yn y gymuned ar ôl yr ymgynghoriad cyntaf, an-statudol. gwirfoddol. Mae'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol wedi'i ddrafftio er mwyn ymgynghori gyda phawb a allai fod â diddordeb, neu a allai gael eu heffeithio, gan gynigion WPL. Felly, mae WPL wedi diffinio ardal ymgynghori benodol, y Parth Ymgynghori. Bydd croeso hefyd i sylwadau ac awgrymiadau o'r tu allan i'r parth hwn a bydd y rhain yn derbyn yr un sylw.

16.2. Mae'r Parth Ymgynghori'n cynnwys yr ardaloedd agosaf at y cynigion y gofynnir am Orchymyn Caniatáu Datblygu ar eu cyfer, er enghraifft os bydd seilwaith ynddyn nhw neu gerllaw. Mae WPL wedi nodi y bydd y Parth Ymgynghori'n ardal 2 cilometr o amgylch y seilwaith arfaethedig. O gofio ble mae'r Parth Ymgynghori, mae WPL wedi nodi bod y cynghorau cymuned canlynol y tu fewn i'r parth hwn:

- Cyngor Cymuned Abenbury
- Cyngor Cymuned Bangor Is y Coed
- Cyngor Cymuned yr Holt
- Cyngor Cymuned Is y Coed
- Cyngor Cymuned Marchwiall
- Cyngor Cymuned Willington and Worthenbury

Mae'r parth ymgynghori hefyd yn cynnwys plwyfi cyfagos

- Cyngor Cymuned Church Shocklach
- Cyngor Cymuned Shocklach Oviatt

16.3. Ystyrir felly bod trigolion a busnesau yn y Parth Ymgynghori a'r Cynghorau Cymuned a Phlwyf a nodir uchod yn ymgynghoreion cymunedol perthnasol a allai gael eu heffeithio gan gais WPL am Orchymyn Caniatâd Datblygu.

16.4. Gallai'r prosiect fod o ddiddordeb i'r rhai nad yw'r prosiect yn effeithio'n

uniongyrchol arnyn nhw neu nad ydyn nhw, efallai, yn byw nac yn gweithio o fewn y Parth Ymgynghori. Cafodd gweithgareddau cyfathrebu ymgynghori WPL eu dylunio i godi ymwybyddiaeth o'r cynigion ymysg cynulleidfa lawer ehangach na dim ond y rhai sy'n byw neu'n gweithio yn y Parth Ymgynghori, er enghraifft, drwy ddefnyddio'r cyfryngau lleol a rhanbarthol gan gynnwys gwefannau newyddion a phapurau newydd yn ogystal ag adeiladu ar y diddordeb a'r ymwybyddiaeth a gododd o'r ymgynghoriad cyntaf, gwirfoddol, an-statudol. Mae hyn yn cynnwys gosod hysbysebion mewn papurau newydd sy'n cylchredeg y tu fewn a'r tu allan i'r Parth Ymgynghori arfaethedig yn ogystal â chynhyrchu sylw ar wefannau newyddion sy'n gwasanaethu rhanbarth gogledd Cymru.

16.5. Bydd WPL yn ymgynghori â'r rhai sy'n byw neu'n gweithio yn y Parth Ymgynghori drwy ddefnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu. Ni fydd yr ymgynghori'n dibynnu ar un dull yn unig, yn hytrach cydlynir y dulliau ymgynghori i sicrhau fod ymgynghoreion yn cael nifer o gyfleoedd i gymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwefan Ymgynghori** lle bydd yr holl ddogfennau perthnasol ar gael. Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y prosiect ar gael ar y wefan www.Wrexham-Power.com
- Cynhyrchir a rhennir **taflen y prosiect**, gyda manylion y cynllun arfaethedig, i bob cyfeiriad trigiannol a masnachol yn y Parth Ymgynghori a bydd y rhain yn cael eu nodi gan ddefnyddio data cyfeiriadau'r Post Brenhinol [2771 o gyfeiriadau]. Bydd yn cynnwys ffurflen adborth, manylion cyswllt WPL a manylion lle gellir canfod rhagor o wybodaeth (www.Wrexham-Power.com). Bydd hefyd ar gael i'w chymryd adref mewn arddangosfeydd a chyfarfodydd a bydd yn cael ei hanfon at yr ymgynghoreion a nodwyd ac at y rhai sydd wedi cofrestru diddordeb yn y prosiect.
- Cynhelir **arddangosfeydd cyhoeddus** mewn mannau cyfleus o amgylch y prosiect. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar y cymunedau sydd agosaf at adeiladau pwerdy a chysylltiad nwy cyfunol WEC. Bydd aelodau'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch yr arddangosfeydd. Bydd dogfennau'r prosiect, byrddau arddangos gyda manylion y cynigion a lluniau a defnyddiau gweledol i'w gweld ym mhob arddangosfa. Yn yr arddangosfeydd, bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu trafod yn uniongyrchol ag aelodau tîm WPL ac awgrymu newidiadau a allai wella'r cynllun. Bydd cyfle hefyd i gyflwyno awgrymiadau a sylwadau ysgrifenedig. Bydd gwybodaeth helaeth ynghylch y cynigion yn gyffredinol ar gael ym mhob digwyddiad. Bydd yr arddangosfeydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Mae manylion yr arddangosfeydd fel a ganlyn:

Lleoliad	Amser a Dyddiad:
Neuadd Bentref Isycoed, Isycoed, Bowling Bank, LL13 9RN	3pm tan 8pm Dydd Llun 21 Gorffennaf 2014
Neuadd Bentref Marchwial, Piercy Avenue, Marchwiel, LL13 0RH	3pm tan 8pm Dydd Mawrth 22 Gorffennaf 2014
The Atrium Suite, Redwither Tower, Redwither Business Park, LL13 9XT	3pm tan 8pm Dydd Mercher, 23 Gorffennaf 2014

Rhoddwyd **cyflwyniad** i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cyn lansio'r cynigion diwygiedig ar 4 Mawrth 2014. Cynigir cyflwyniadau ychwanegol i gynghorau cymuned lle bwriedir gosod seilwaith ac i grwpiau cymunedol eraill fel bo'n briodol.

- Bydd WPL yn ysgrifennu at ac yn cyflwyno copiâu o daflen y prosiect i gynrychiolwyr etholedig yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion megis cynghorwyr wardiau, Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ac Aelodau Seneddol i gynnig **cyfarfodydd** yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Bydd **copïau i'w harchwilio** o'r dogfennau ar gael ac yn cael eu dangos mewn mannau y cytunir gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd yr wybodaeth a fydd ar gael yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gynlluniau a diagramau PEIR (gan gynnwys y Crynodeb Annhechnegol) y cynigion, yr Adroddiad Adborth Ymgynghori Cam 1 a'r nodiadau technegol i'w canlyn. Bydd yr wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y prosiect www.Wrexham-Power.com – yn yr adran Llyfrgell.

Lleoliad yr Arddangosfa	Oriau Agor
Contact Wrexham, 16 Lord Street, Wrecsam, LL11 1LG	8:30am tan 5:30pm Llun i Gwener
Redwither Tower, Redwither Business Park, LL13 9XT	8am i 6pm Llun i Gwener

17. Ymateb i'r ymgynghoriad

17.1. Bydd yr holl sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed yn cael eu hystyried gan WPL ac, os yw'n briodol, yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun ac asesiad o'r cynigion, er na fydd peirianeg a gofynion gweithredol bob amser yn caniatáu hyn. Gellir darparu ymateb drwy'r sianelau canlynol:

- Cyfeiriad rhadbost ar gyfer ymatebion ysgrifenedig: Wrexham Power Limited, Local Dialogue, FREEPOST NAT3717, London SE1 2BR
- Llinell gwybodaeth am y prosiect rhadffôn a gaiff ei staffio yn ystod oriau gwaith: 0800 319 6185
- Cyfeiriad e-bost y prosiect: info@Wrexham-Power.com
- Ffurflenni adborth mewn digwyddiadau cyhoeddus
- Ffurflen sylwadau ar-lein ar gael ar wefan y prosiect.

17.2. Dylid nodi unwaith y bydd cais DCO wedi ei gyflwyno a'i dderbyn i'w Archwilio, dylid gwneud sylwadau'n uniongyrchol i PINS a rhaid i bartïon â diddordeb gofrestru naill ai'n ysgrifenedig â PINS neu drwy eu gwefan.

17.3. Bydd yr holl ymatebion a gyflwynir i WPL fel rhan o'i broses ymgynghori yn hysbysu archwiliad yr Arolygiaeth Gynllunio o'r cynigion. Felly, bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ar sail heb ei phriodoli. I gynorthwyo'r broses hon, bydd ymgynghoreion yn cael eu hannog i gyflenwi adborth ysgrifenedig yn hytrach nag, er enghraifft, adborth llafar.

17.4. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfrif am grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Lle bo angen, efallai y bydd angen cyfathrebu, mewn ffordd ychydig yn wahanol, gyda grwpiau sydd ag anghenion ychwanegol, er enghraifft, trwy ddarparu deunyddiau print bras i aelodau'r gymuned sydd â nam ar eu golwg. Ceisiwyd gael canllawiau gan CBSW am y grwpiau hyn ac mae eu manylion wedi eu darparu i sicrhau cynhwysiad mewn ymgynghoriad statudol. Argymhellwyd bod WPL yn ymgynghori yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru. Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei wneud yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol, a bydd y ffordd y caiff hyn ei gyflawni yn cael ei esbonio yn Adroddiad Ymgynghori WPL.

17.5. Bydd yr holl sylwadau a'r awgrymiadau a dderbynnir gan WPL yn cael eu hystyried wrth gwblhau dyluniad y cynllun a'r cais am DCO. Bydd y ffordd y mae'r cynllun wedi esblygu i adlewyrchu ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei grynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais am DCO.

18. Yr Iaith Gymraeg

18.1. Mae cynigion WPL wedi cael eu lleoli mewn ardal Gymraeg ddichonol, ac mae CBSW yn gweithio i hyrwyddo'r iaith. O'r herwydd, bydd WPL yn cynhyrchu crynodebau o'r deunyddiau prosiect canlynol yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol:

- Datganiad o Ymgynghori Cymunedol
- Taflen gwybodaeth prosiect
- Gwefan prosiect
- Byrddau arddangos
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol – Crynodeb Annhechnegol (PEIR NTS)

19. Ymgynghoriadau perthnasol eraill

19.1. Bydd WPL yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ymgynghoriadau eraill ar NSIP yn ardal Wrecsam, a chynllunio ei ymgynghoriad yn unol â hynny. Er enghraifft, mae WPL yn cydnabod y gallai ymgynghoreion ddiodef o 'flinder ymgynghori' os bydd digwyddiadau cyhoeddus ar gyfer prosiectau gwahanol yn cael eu cynllunio ar gyfer yr un diwrnod.

19.2. Ar hyn o bryd, nid yw WPL yn ymwybodol o unrhyw gynigion na digwyddiadau a fyddai'n gwrthdaro â'i ymgynghoriad.

20. Gwybodaeth Bellach

20.1. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y WEC a WPL ar www.Wrexham-Power.com, e-bost: info@Wrexham-Power.com, neu ffonio 0800 319 6185 neu ysgrifennu at Wrexham Power Limited, Local Dialogue, Freepost NAT3717, London, SE1 2BR.

20.2. Bydd WPL yn hysbysu'r rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer diweddariadau prosiect o gyflwyniad ei gais DCO. Os ydych yn dymuno cael y wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch â thîm y prosiect trwy ddefnyddio'r manylion uchod.

PAGE INTENTIONALLY LEFT BLANK
Hysbysiad Adran 47(6) yn dilyn

Canolfan Ynni Wrecsam a Chysylltiadau

**Adran 47(6) Deddf Gynllunio2008
Datganiad o Ymgynghori Cymunedol**

Gorffennaf 2014

Canolfan Ynni Wrecsam

Adran 47 Deddf Gynllunio2008

Hysbysiad ynghylch lle a phryd y gall y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol i Ganolfan Ynni Wrecsam gael ei archwilio

Cyflwyniad

Mae Wrexham Power Limited (WPL) yn bwriadu adeiladu, gweithredu a chynnal gorsaf bŵer tyrbîn nwy cylch cyfun (CCGT) gyda chynhwysedd trydanol o hyd at 299 megawatt (MWe) ar Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam. Bydd y prosiect yn cynnwys cysylltiad nwy integrol,

Dan yr enw Canolfan Ynni Wrecsam (Wrexham Energy Centre - WEC), mae'r prosiect wedi ei ddynodi fel Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (NSIP) o dan y Ddeddf Gynllunio 2008 ac felly mae angen Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd

Mae WPL wedi cyhoeddi Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC) yn unol ag Adran 47 o'r Ddeddf Gynllunio 2008. Mae'r SoCC yn nodi sut mae WPL yn bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam am y WEC. Mae'r SoCC yn nodi sut y bydd WPL yn cynnal ymgynghoriad statudol gyda chymunedau lleol rhwng 14 Gorffennaf 2014 ac 24 Awst 2014 (yn gynhwysol) ar ei gynigion ar gyfer y WEC. Mae copi llawn o'r SoCC yn cael ei ddarparu yn llyfrgell ddogfennau'r prosiect ar www.Wrexham-Power.com ac mae'r SoCC hefyd ar gael yn y lleoliadau a nodir isod. Ceir crynodeb o ddull ymgynghori WPL yn yr hysbysiad hwn.

Wrexham Power Limited

Mae WPL yn bartneriaeth fenter ar y cyd rhwng Glenfinnan, cwmni buddsoddi a datblygu eiddo gyda phrofiad helaeth yn y sector ynni, a St Modwen, arbenigwyr adfywio mwyaf blaenllaw y DU. Ar hyn o bryd mae'r bartneriaeth yn symud ymlaen â nifer o brosiectau cynhyrchu ynni ar draws y DU.

Gwybodaeth Amgylcheddol

Mae'n ofynnol i WPL gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) o dan y Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (fel y'u diwygiwyd) (y "Rheoliadau AEA"). Bydd yr asesiad yn ystyried yr effeithiau posibl y WEC, yn gadarnhaol a negyddol, gan gynnwys ansawdd aer a dŵr, sŵn, gweledol, traffig, ecoleg lleol, archaeoleg a threftadaeth, economeg gymdeithasol ac effaith gronnus.

Er mwyn caniatáu ar gyfer ymgynghori llawn ac ystyrion o 14 Gorffennaf 2014, mae WPL yn cyhoeddi Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) yn unol â Rheoliadau EIA. Bydd y PEIR cyflwyno'r asesiad cychwynnol o ran effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y WEC, a mesurau lliniaru potensial sy'n ymwneud ag unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Bydd y PEIR yn hysbysu'r Datganiad Amgylcheddol sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais am DCO ar gyfer y WEC. Bydd y PEIR ar gael yn y lleoliadau archwilio a nodir yn yr hysbysiad hwn rhwng 14 Gorffennaf 2014 ac 24 Awst 2014 (yn gynhwysol) a bydd copïau yn cael eu darparu i ymgynghoreion statudol perthnasol.

Y broses gynllunio

Mae'r broses ganiatâd ar gyfer ceisiadau DCO wedi'i nodi yn y Ddeddf Gynllunio 2008.

Yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS) yw'r asiantaeth sy'n gyfrifol am reoli'r broses archwilio ar gyfer NSIPs.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn derbyn cais WPL am DCO yn hwyr yn 2014, yn ymgymryd ag archwiliad cyhoeddus trylwyr o'i gynnwys, ac yna'n gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd. Mae polisïau'r Llywodraeth mewn perthynas â phrosiectau megis y WEC wedi eu gosod allan yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs). Noda NPS EN-1 (Ynni) "y bydd nwy yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y sector trydan – gan roi hyblygrwydd hanfodol i gefnogi a chynyddu swm cynhyrchu carbon-isel ac i gynnal diogelwch y cyflenwad." Caiff yr angen am y Prosiect ei sefydlu drwy NPSs ac felly nid yw'n bwnc ar gyfer ymgynghori.

Bydd argymhelliad yr Arolygiaeth Gynllunio ar gais WPL am DCO yn cael ei wneud yn unol â'r NPSs perthnasol sy'n ymwneud â datblygiadau ynni o'r math hwn. Yr Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn y pen draw yn penderfynu p'un ai i wneud DCO ar gyfer y WEC.

Ymgynghori â'r gymuned

Bydd WPL yn ymgynghori â'r gymuned yn unol â'r Ddeddf Gynllunio 2008 rhwng 14 Gorffennaf 2014 ac 24 Awst 2014 (yn gynhwysol), cyfnod o 32 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y gymuned yn cael eu gwahodd i weld dyluniadau a gwybodaeth enghreifftiol, gan gynnwys y PEIR, ar gynigion WPL ar gyfer y WEC.

Mae copi llawn o'r SoCC bellach ar gael ar ein gwefan ac mae ar gael yn awr hefyd yn y lleoliadau archwilio a restrir isod. Fel y nodir yn ein SoCC, bydd yr offer a'r dulliau cyfathrebu canlynol yn cael eu defnyddio i hysbysu'r gymuned ymgynghori::

Gwefan ymgynghori - bydd www.Wrexham-Power.com yn gwasanaethu fel y ffynhonnell wybodaeth fwyaf cyfredol am y prosiect. Bydd dogfennau ymgynghori, cynlluniau a gwybodaeth ategol yn cael eu darparu yn llyfrgell ddogfennau'r wefan.

Taflen Prosiect - bydd hon yn cael ei hanfon i gyfeiriadau preswyl a masnachol mewn parth ymgynghori sy'n cael ei nodi yn y SoCC. Bydd yn cynnwys ffurflen adborth, yn rhoi manylion cyswllt ar gyfer WPL ac yn cynnwys manylion ar ble mae rhagor o wybodaeth ar gael.

Arddangosfeydd cyhoeddus - bydd y gymuned yn gallu cwrdd a holi tîm y prosiect mewn tri digwyddiad arddangosfa gyhoeddus a chyflwyno eu hadborth yn bersonol. Bydd arddangosfa wybodaeth yn egluro'r cynigion a'r dogfennau ategol, gan gynnwys cynlluniau, delweddu, y daflen prosiect, a bydd y SoCC a'r PEIR ar gael. Bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ar yr amseroedd ac yn y lleoliadau canlynol:

Lleoliad	Amser a dyddiad
Neuadd Bentref Isycoed, Isycoed, Bowling Bank, LL13 9RN	3pm i 8pm Dydd Llun 21 Gorffennaf 2014
Neuadd Bentref Marchwiel, Piercy Avenue, Marchwiel, LL13 0RH	3pm i 8pm Dydd Mawrth 22 Gorffennaf 2014
Ystafell Atrium Suite, Redwither Tower, Parc Busnes Redwither, LL13 9XT	3pm i 8pm Dydd Mercher 23 Gorffennaf 2014

Cyfyngau lleol - bydd y gymuned yn cael gwybod am yr ymgynghoriad drwy ddatganiadau i'r wasg a hysbysebion yn y cyfyngau lleol

Cyflwyniadau a chyfarfodydd - bydd cyflwyniadau a chyfarfodydd yn cael eu cynnig i gynghorau cymuned a phlwyf a chynrychiolwyr etholedig

Archwilio dogfennau (gan gynnwys y SoCC)

Bydd WPL yn gwneud y dogfennau ymgynghori a nodwyd uchod ar gael yn y lleoliadau canlynol rhwng 14 Gorffennaf 2014 ac 24 Awst 2014 (yn gynhwysol). Mae'r SoCC ar gael yn y lleoliadau isod o heddiw ymlaen:

Lleoliad arddangos	Oriau agor
Contact Wrexham, 16 Lord Street, Wreccsam, LL11 1LG	8:30am i 5:30pm Llun i Gwener
Redwither Tower, Parc Busnes Redwither, LL13 9XT	8am i 6pm Llun i Gwener

Cyflwyno sylwadau ac awgrymiadau

Bydd y rhai sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ac awgrymiadau ar gynigion WPL yn gallu gwneud hynny drwy'r sianelau canlynol:

- Trwy e-bost: info@Wrexham-Power.com
- Yn ysgrifenedig: Wrexham Power Limited, Local Dialogue, FREEPOST NAT3717, London, SE1 2BR
- Dros y ffôn: 0800 319 6185

- Yn bersonol mewn digwyddiadau arddangos, cyfarfodydd a chyflwyniadau llafar a thrwy ffurflenni adborth
- Ffurflen sylwadau ar-lein sydd ar gael ar wefan y prosiect www.Wrexham-Power.com

Cofnodi ac ystyried sylwadau ac awgrymiadau

Bydd WPL yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Bydd ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi'n briodol. Gall ymatebion a dderbynnir gael eu gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn, neu ochr yn ochr, â'r Adroddiad Ymgynghori.

Bydd yr adborth a gyflwynir ar lafar trwy'r llinell ffôn Rhadffôn yn cael ei chofnodi a'i chrynhai. Yn yr un modd, bydd adborth llafar a gyflenwir mewn digwyddiadau arddangos a chyfarfodydd yn cael eu crynhai gan WPL, a gellir ei gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori.

Byddai WPL yn croesawu eich barn ar y WEC ar neu cyn 24 Awst 2014. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad wrth ddarparu ymateb.

Gall ymatebion gael eu gwneud yn gyhoeddus, yn amodol ar gyfreithiau diogelu data.

Gwybodaeth gyswllt

Gellir cysylltu â thîm prosiect WPL trwy: Ffonio 0800 319 6185, Llun i Gwener, rhwng 9:00am a 5:30pm. E-bostio info@Wrexham-Power.com Ysgrifennu at Wrexham Power Limited, Local Dialogue, Freepost NAT3717, London, SE1 2BR.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am WPL a'r cynigion ar gyfer y WEC ar www.Wrexham-Power.com.

5 Gorffennaf 2014